Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Adolygiad o Raglen Gwobrau Corfforaethol CIPS – Arolwg/Cyfweliad: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Miller Research (UK) Ltd, i gynnal adolygiad o Raglen Gwobrau Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS).

Bydd Miller Research yn cynnal cyfres o arolygon a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddylunio a chyflwyno'r rhaglen, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a rhanddeiliaid sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen o'r blaen neu sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd. Nod yr ymarfer hwn yw asesu sut mae cynnwys a model cyflwyno'r Rhaglen Gwobrau Corfforaethol yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac adolygu canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen. Mae'r adolygiad yn bwysig er mwyn llywio cyfeiriad a buddsoddiadau'r rhaglen yn y dyfodol i ategu capasiti caffael a datblygiad proffesiynol.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil, a'r rheolydd data sy'n penderfynu sut a pham y gellir prosesu data personol. At ddibenion yr ymchwil hwn, y data personol y byddwn yn ei gasglu yw gwybodaeth am eich sefydliad, eich sector a'ch swydd.

Miller Research yw'r proseswyr data, ac maen nhw wedi cael eu cyfarwyddo gan y rheolydd data i gasglu data drwy arolygon a chyfweliadau. Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi gan Miller Research a bydd yn cael ei wneud yn ddienw wrth ddrafftio adroddiad ar yr argymhellion. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i gefnogi Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer mentrau yn y dyfodol i gefnogi gallu a chapasiti caffael cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig iawn i helpu i lywio cyfeiriad y rhaglen Gallu Masnachol ac Arweinyddiaeth yn y dyfodol.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn Miller Research yw Susannah Lynn:

Cyfeiriad e-bost: susannah@miller-research.co.uk

## Pa ddata personol a gedwir gennyn ni ac o ble rydyn ni'n cael yr wybodaeth hon?

Y diffiniad o ddata personol yn ôl y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yw unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddynodydd.

Byddwch wedi derbyn neu wedi cael gwybod am y cyfweliad neu'r arolwg yn un o'r ffyrdd a ganlyn:

- Mae Llywodraeth Cymru neu Miller Research wedi cysylltu â chi, ar ôl ichi roi caniatâd o'r blaen i Gyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru gadw mewn cysylltiad â chi ynghylch materion caffael sy'n effeithio ar y sector

cyhoeddus yng Nghymru. Gweler Hysbysiad Preifatrwydd y Gyfarwyddiaeth Masnachol a Chaffael yma. Neu;

- Rydych wedi gwneud cais neu wedi rhoi cymeradwyaeth o'r blaen i'ch cyflogai gymryd rhan yn Rhaglen Gwobrau Corfforaethol CIPS. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Rhaglen Gwobrau Corfforaethol CIPS yn nodi sut y byddwn yn defnyddio eich data. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn ar gael yma. Neu;
- Rydych wedi dilyn dolen i'r arolwg yn y Newyddlen fisol neu drwy un o'n sianelau cyfryngau cymdeithasol.

**Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data personol?**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw cyflawni ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae adolygiadau fel yr un hwn yn bwysig i Lywodraeth Cymru i wella'r rhaglen er mwyn i Sector Cyhoeddus Cymru ei defnyddio yn y dyfodol.

**Pa mor ddiogel yw eich data personol ac â phwy rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth?**

Wrth gynnal arolygon, mae Miller Research yn defnyddio rhaglen o'r enw Smart Survey. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn siŵr bod Smart Survey yn cydymffurfio â GDPR y DU ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelu unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd (e.e. caiff yr holl ddata ei brosesu o fewn gwledydd yr AEE).

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal dros Microsoft Teams. Yn ystod y cyfweliad, bydd Miller Research yn gofyn i'r cyfranogwr am ganiatâd i recordio trawsgrifiad byw. Mae hyn yn gwbl opsiynol, ac os yw'r cyfranogwr hwnnw'n caniatáu defnyddio meddalwedd trawsgrifio, bydd unrhyw drawsgrifiadau'n cael eu defnyddio i greu crynodeb o'r drafodaeth a'u dinistrio ar ddiwedd y contract ymchwil.

Os byddwch yn dewis rhoi rhagor o ddata personol yn rhan o'r arolwg a/neu'r cyfweliad, ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth i'ch adnabod nac yn cysylltu eich enw â'r ymatebion rydych yn eu rhoi yn yr adroddiad terfynol. Os byddwch yn gofyn cwestiwn neu'n gwneud cwyn, bydd yr ymchwilydd yn rhoi eich cwestiwn neu eich cwyn i'r swyddog perthnasol ac wedyn yn eu dileu o ddata'r arolwg.

Os ydych yn rhoi data personol ychwanegol ac yn cadarnhau eich bod yn hapus inni gysylltu â chi yn dilyn y cyfweliad a'r arolwg, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gysylltu ag ymatebwyr i ofyn am ragor o wybodaeth a fydd yn ategu ein dealltwriaeth o'ch ymateb a/neu i wneud gwelliannau i'r rhaglen.

Bydd yr holl ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol a gesglir gan Miller Research fel rhan o'r adolygiad hwn yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r contract, drwy ein platfform rhannu ffeiliau diogel 'Objective Connect'.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd mynediad Miller Research at y cofnodion hyn yn dod i ben a byddan nhw'n dinistrio unrhyw gofnodion eraill sydd ganddyn nhw ar ddiwedd y contract.

**Am faint rydyn ni'n cadw'r data personol?**

Bydd data crai yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru pan ddaw tymor y contract i ben. Os byddwch yn rhoi manylion cyswllt, byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol y gellir ei ddefnyddio i'ch adnabod am hyd at bum mlynedd. Ar ôl cyfnod o bum mlynedd bydd y data a gedwir ar ffeil yn cael ei adolygu. Os nad yw'r data'n cael ei ddefnyddio bellach, bydd yn cael ei ddileu o'n cofnodion. Bydd Miller Research yn trosglwyddo ac yn cael gwaredu ar wybodaeth bersonol y gellir ei defnyddio i adnabod unigolion ar ddiwedd y contract.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r manylion cysylltu sydd ganddi eisoes, fel cofrestru ar GwerthwchiGymru, yn unol â'r Hysbysiadau Preifatrwydd a gyhoeddwyd at y dibenion hynny.

**Hawliau'r unigolyn**

O dan y GDPR mae gennych hawliau penodol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a roddir gennych ar gyfer unrhyw ymchwil a gynhelir drwy Raglen Ymchwil Cyflogeion. Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- Gweld copi o'ch data personol;
- Gofyn inni gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu eich data neu ofyn inni gyfyngu ar y prosesu hwnnw;
- Gofyn inni ddileu eich data (o dan amgylchiadau penodol);
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**

Os oes gennych gwestiynau eraill am sut bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a roddir fel rhan o'r astudiaeth hon, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Simon Brindle
Cyfeiriad e-bost: Simon.brindle@llyw.cymru
Rhif ffôn: 03000 257310

Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru